



CÔD YMARFER AR GYFER DISGYBLION

- Byddwch yn onest a dangoswch barch at eich hunan ac at bawb a phopeth arall drwy ymddwyn yn rhesymol a chyfrifol yn unol â disgresiwn y Prifathro.
- Rhaid gwneud eich gorau i fynychu'r Ysgol yn rheolaidd.
- Byddwch yn brydlon bob amser.
- Cadw at reolau gwisg ysgol yn gyson. Dim gwisgo cotiau yn yr ystafelloedd dysgu nag yn y Neuadd. Dim capiau i'w gwisgo yn yr Ysgol.
- Nid oes gennych hawl i adael gwers na thir yr Ysgol yn ystod y dydd heb ganiatâd.
- Dylid cadw'r Ysgol yn lân a thaclus. Golyga hyn rhoi pob sbwriel mewn bin a chadw pob wal, dodrefn a hysbysfwrdd yn lân.
- Symudwch o gwmpas yr Ysgol yn gyfrifol gan gadw i'r dde ar y coridorau a'r grisiau i osgoi tagfeydd. Gadwech bob ystafell yn drefnus.
- Tu allan i amser gwersi dylid cadw bagiau a chotiau unai mewn ystafell ddysgu neu ar fachyn ar y coridorau - peidiwch â'u taflu ar lawr yn unman.
- Byddwch yn barod i weithio, cydweithio a gwneud eich gorau bob amser.
- Gwnewch yn sicr fod y llyfrau a'r offer cywir ganoch yn rheolaidd. Peidiwch â dod ag offer drud i'r Ysgol fel chwaraewyr CD, ffôn symudol ayyb.
- Rhaid gorffen pob gwaith dosbarth a gwaith cartref yn daclus ac yn brydlon i'r safon gorau y gallwch. Dylid cofnodi pob gwaith cartref yn y Llyfr Cyswllt neu yng nghefn eich llyfrau.
- Bwyd a diod i'w bwyta yn y ffreutur yn unig. Ni ddylid dod a photeli gwydr na chaniau metel i'r Ysgol. Dim cnoi 'chweing gum' o gwbl yn yr Ysgol.
- Dylid ymddwyn yn gyfrifol a pharchus ar bob taith o'r Ysgol gan sicrhau eich bod yn gwarchod enw da'r Ysgol.

Mae rheolau yma er lles pawb yn yr Ysgol ac wrth gadw atynt mi fydd yr Ysgol yn un y byddwn i gyd yn falch ohoni.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:


Dafydd M Roberts (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad cymeradwyo: 14/07/2014 (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2017



CYTUNDEB CARTREF-YSGOL



Ysgol - Gwnawn ein gorau i:

- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
- Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
- Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Sicrhau amgylchedd diogel i'ch plentyn.
- Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod gwâr o gymdeithas.
- Roi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
- Roi cyngor amserol i'ch plentyn ynglŷn â dewisiadau addysgol a phersonol ac i chithau yn ôl y gofyn.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

Arwyddwyd: _____ (Ysgol)

Rhiant - Gwnaf/Gwanwn ein gorau i:

- Sicrhau bod fy/ein plentyn un gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn dal i fyny â gwaith a gollwyd.
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i'r ysgol ac ar amser.
- Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
- Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
- Annog fy mhentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Wneud yn siŵr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gwsg.
- Wneud yn siŵr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
- Wneud yn siŵr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
- Siarad efo fy/ein plentyn am fywyd a'i waith yn yr ysgol.
- Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

Arwyddwyd: _____ (Rhiant)

Disgybl - Gwnaf fy ngorau i:

- Weithio'n galed yn yr ysgol a chyrraedd fy nhargedau.
- Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon a hyd eithaf fy ngallu.
- Cyflwyno fy ngwaith yn daclus.
- Ddod a'r offer cywir i'r holl wersi.
- Fod yn brydlon.
- Fod yn bresennol a dal i fyny â gwaith y gallwn fod wedi ei gollu.
- Fod yn onest.
- Gadw at holl reolau'r ysgol.
- Wisgo gwisg ysgol.
- Barchu fy hun ac eraill.
- Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
- Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

Arwyddwyd: _____ (Disgybl)